**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw: **Sarah Capstick**

Sefydliad (os yw'n berthnasol): **Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru**

E-bost / rhif ffôn: **07384469664**

Eich cyfeiriad: **sarah.capstick@wlga.gov.uk**

**Cwestiwn 1: Mae'r Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau drafft hwn wedi'i ddylunio i lywio a chynorthwyo cynllunwyr a darparwyr ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol i ddylunio a darparu gwasanaethau atal a thrin cynaliadwy a theg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc, yn benodol y rhai hynny sydd mewn perygl o broblemau camddefnyddio sylweddau neu sydd eisoes yn cael problemau o'r fath. A fyddech chi'n cytuno bod y Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau drafft yn gwneud hyn?**

| | | |
|---|---|---|
| Byddwn | Yn rhannol ☒ | Na fyddwn |

**Cwestiwn 1a: Os ydych wedi ateb 'yn rhannol' neu 'na fyddwn', a wnewch chi ddweud wrthym ba wybodaeth ychwanegol y mae ei hangen?**

Mae gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ran i'w chwarae hefyd wrth gynnal gweithrediad y Fframwaith, ac mae llawer o'r canlyniadau a ddaw yn sgil camddefnyddio sylweddau'n berthnasol i gylchoedd gwaith y cyrff hynny, fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, trais a throseddu meddiangar, er enghraifft. Yn ogystal â hynny mae cam-fanteisio a chaethwasiaeth fodern yn aml yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau neu'n rhan o'r drefn o gynhyrchu a darparu sylweddau; fe nodir darparwyr cyfiawnder troseddol ond mae hyn hefyd yn rhan o gylchoedd gwaith y partneriaethau diogelwch cymunedol a'r byrddau diogelu rhanbarthol, ac ymddengys nad yw'r rhain wedi cael cymaint o sylw ag y byddem wedi'i ddisgwyl.

Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru'n comisiynu rhaglenni ymyriadau cyffuriau ac mae rhai o'r rheiny'n darparu cefnogaeth i bobl dan 25, ond ni chydnabyddir hynny yn y swyddogaethau a chyfrifoldebau ar dudalen 14. Efallai bod hynny'n awgrymu fod y rhaglenni a gomisiynir yn bodoli ar wahân i'r Fframwaith, a

fyddai'n mynd yn groes i ethos y Fframwaith yn ogystal â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n nodi fod cydweithio a phartneriaeth yn bwysig wrth ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth i bobl y mae arnynt eu hangen yng Nghymru.

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno bod yr argymhellion, fel y'u cynigir yn Adran 1, yn addas i'r diben ac yn gyflawnadwy?**

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | Yn rhannol ☒ | Nac ydw |

**Cwestiwn 2a: Os ydych wedi ateb 'yn rhannol' neu 'nac ydw', a wnewch chi ddweud wrthym pa feysydd allweddol ychwanegol neu newidiadau y byddech yn hoffi eu gweld?**

Ymddengys eu bod yn ymdrin â'r elfennau eraill ac eithrio troseddu ac aildroseddu, ac nid oes sôn am bethau fel y Fframwaith Atal Trais y bu'r Uned Atal Trais yn ei ddatblygu na'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol y mae Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru wedi'i ddatblygu ar sail Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru. Mae'r cyfundrefnau Cyfiawnder Troseddol a Diogelwch Cymunedol yn gweithredu yng nghyd-destun deddfwriaethol datganoledig a heb ei ddatganoli, ac ni ymddengys fod y ddogfen yn adlewyrchu'r elfen honno.
Yn y rhestr o awduron a fu'n drafftio'r ddogfen ni ymddengys fod neb â chefndir mewn naill ai cyfiawnder troseddol (y tu hwnt i'r timau troseddu ieuenctid) neu ddiogelwch cymunedol, a byddem yn eich annog i feithrin cyswllt yn y meysydd hynny cyn pennu'r fframwaith terfynol, fel bod gwell cyfle o lwyddo wrth gyflawni nodau arfaethedig y fframwaith.

**Cwestiwn 3: A ydych chi'n credu bod unrhyw heriau o ran darparu gwasanaeth yn gysylltiedig â chyflawni unrhyw un o'r argymhellion?**

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | Yn rhannol ☒ | Nac ydw |

**Cwestiwn 3a**: Os ydych wedi ateb 'yn rhannol' neu 'nac ydw', a wnewch chi ddweud wrthym ba heriau ychwanegol y byddech yn eu disgwyl?

Mae'r drefn cyfiawnder troseddol yn gweithredu dros Gymru a Lloegr ac mae cyfreithiau a deddfwriaeth benodol yn pennu'r oedran pan ddaw rhywun yn oedolyn; bydd angen cyfathrebu clir er mwyn sicrhau fod y bobl hynny yn y drefn cyfiawnder troseddol yn cael yr holl wybodaeth gywir ynglŷn â'r hyn sydd ar gael i bobl neu beidio.

Er mwyn darparu un offeryn asesu a fydd yn ymestyn ar draws y drefn cyfiawnder troseddol bydd gofyn am gydsyniad a chymeradwyaeth Llywodraeth y Deyrnas

Gyfunol (y Swyddfa Gartref / y Weinyddiaeth Gyfiawnder) neu fel arall byddai perygl y byddai'n rhaid i gydweithwyr cyfiawnder troseddol gwblhau adroddiadau niferus i fodloni gofynion y fframwaith camddefnyddio sylweddau yn ogystal â gofynion adrodd y drefn cyfiawnder troseddol

**Cwestiwn 4: Yn eich barn chi, a yw'r Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau arfaethedig yn cysylltu'n dda â meysydd polisi a gwasanaeth eraill perthnasol?**

| | | |
|---|---|---|
| Ydyw | Yn rhannol ☒ | Nac ydyw |

**Cwestiwn 4a: Os ydych wedi ateb 'yn rhannol' neu 'nac ydw', a wnewch chi ddweud wrthym beth sydd ar goll, yn eich barn chi, a beth rydych yn argymell ein bod yn ei ychwanegu?**

Gweler y sylwadau blaenorol ynglŷn â diogelwch cymunedol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a chyfiawnder troseddol.

**Cwestiwn 5: Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau drafft yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

Gellid cryfhau'r argymhellion a chynnwys hyrwyddo diwylliant a dewis iaith (Cymraeg a Saesneg) wrth ddarparu gwasanaethau a'u dylunio.

**Cwestiwn 6**: **Eglurwch hefyd, os gwelwch yn dda, sut rydych yn credu y gallai'r Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau arfaethedig gael ei newid er mwyn:**

- cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a
- pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gellid cryfhau'r argymhellion a chynnwys hyrwyddo diwylliant a dewis iaith (Cymraeg a Saesneg) wrth ddarparu gwasanaethau a'u dylunio.

**Cwestiwn 7**: **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:**

Rydym yn croesawu'r fframwaith a'r bwriad i fynd y tu hwnt i'r dull traddodiadol o ymdrin â chamddefnyddio sylweddau, ond credwn y gellid cryfhau'r berthynas â diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol ac y byddai hynny'n goresgyn unrhyw rwystrau neu fylchau posib a allai ymddangos rhwng y gwahanol feysydd gwaith.

**Cyflwyniad i Rwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru.**

Sefydlwyd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru ym mis Ionawr 2021 yn dilyn argymhellion Adolygiad Gweithio Gyda'n Gilydd i greu Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru.  Nod y Rhwydwaith yw dod yn llais strategol dros ddiogelwch cymunedol yng Nghymru, drwy gydweithio i hyrwyddo a chefnogi partneriaethau diogelwch cymunedol a dylanwadu ar lunio a datblygu polisi cenedlaethol ac arferion lleol. Ymateb ar ran y Rhwydwaith yw hwn ac nid CLlLC